



# Pam plannu coed ar fy fferm? Why plant trees on my farm?



## Pam plannu coed ar fy fferm?

Gall coetir fod yn gaffaeliad mawr i fferm, a gall coetir sydd newydd ei blannu wella isadeiledd y fferm gan roi cyfleoedd i addasu a gwella defnydd tir amaethyddol.

Mae llawer o fanteision i blannu coetiroedd yn strategol. Yn ogystal â darparu coed a thanwydd, gall coetir greu cysgod ar gyfer cnydau, stoc neu adeilad a gall atal dŵr ffo a lleihau erydiad pridd, a gwella bywyd gwylt ar y fferm. Mae coetiroedd hefyd yn cynnig cyfleoedd i gynhyrchu incwm o saethu.

## Why plant trees on my farm?

Woodland can be a great asset on the farm and newly planted woodland can enhance a farm's infrastructure, providing opportunities to adapt and improve agricultural land use.

Strategic planting of woodland has many benefits. In addition to providing timber and fuel, it can be used to create shelter for crops, stock or buildings and can prevent run-off and reduce soil erosion whilst also enhancing wildlife on the farm. Woodland also offers the opportunity to generate income from shooting.



## Creu cysgod

Mae coetir yn rhoi cysgod i dda byw drwy gynyddu'r tymheredd aer amgylchynol ac mae hyn yn helpu i rwystro da byw rhag colli pwysau yn ystod misoedd oer y gaeaf. Yn ystod misoedd yr haf, mae'n rhoi cysgod gan leihau effeithiau'r gwres. Gellir cael manteision o'r fath drwy blannu ardaloedd bach newydd neu drwy adael i rai coed mewn gwrychoedd dyfu.

Amcangyfrifir bod coed cysgodol yn gallu lleihau'r angen am wres mewn tai ac adeiladau allan o tua 10-40%, a gallant hefyd gynyddu canrannau wyna.

## Bioggiogelwch

Mae coetiroedd yn creu lleiniau amddiffynnol effeithiol a gellir eu defnyddio i wella bioggiogelwch drwy rwystro gwahanol dda byw rhag dod i gysylltiad â'i gilydd a thrwy greu ffin rhwng cnydau a thir arall.

"Mae coetiroedd yn rhoi cysgod i dda byw"

"Woodland provides shelter for livestock"

## Shelter and shade

Woodland provides shelter for livestock by increasing the ambient air temperature which effectively reduces weight loss in livestock during cold winter months. In the summer months it provides shade which reduces the effects of summer heat. Such benefits can be realised from relatively small areas of new planting or by allowing existing hedgerow trees to grow.

It is estimated that shelterwoods can reduce the requirement for heating in houses and outbuildings by 10-40% and can also increase lambing percentages.

## Bio-security

Woodlands make effective buffer zones and can be used to improve bio-security by averting the contact of different livestock and providing a break between crops and other land.

## Coed a thanwydd

Mae coed a chynhyrchion coedwig eraill yn gallu bod yn ddefnyddiol ar y fferm ac maent hefyd yn darparu incwm ac yn gallu bod yn bwysig o ran arallgyfeirio busnes y fferm.

Mae coetiroedd conwydd a choed llydanddail sy'n tyfu'n gyflym yn darparu cynhyrchion y gellir eu defnyddio ar ôl cyfnod o 15 i 20 mlynedd. Gellir defnyddio'r coed ar y fferm ar gyfer gwaith adeiladu, ffensio, giatiau a chamfeydd. Gellir defnyddio sglodion coed dan anifeiliaid a gellir gwerthu'r hyn sydd dros ben.

Mae coetiroedd hefyd yn ffynhonnell wych o danwydd adnewyddadwy, boed at ddefnydd y fferm neu ar gyfer ei werthu.

## Rheoli pridd a dŵr

Gall coed leihau erydiad pridd gan ddiogelu cyrsiau dŵr rhag gwaddodiad a dŵr ffo o dail a gwrtaith.



“Woodland is a great source of renewable fuel”

“Mae coetiroedd yn ffynhonnell wych o danwydd adnewyddadwy”

## Timber and fuel

Timber and other forest products can, as well being useful on the farm, provide income and be important in diversifying the farm business.

Both conifer and fast growing broadleaved woodland provide usable products from 15-20 years onwards. The timber can be used on the farm for building work, fencing, gates and stiles. Woodchip can be used for animal bedding and any surplus sold.

Woodland is a great source of renewable fuel, either for use on the farm or to sell.

## Soil and water management

Trees can reduce soil erosion so protecting watercourses from sedimentation and runoff from manure and fertilisers.

## Gwella'r dirwedd a hybu bywyd gwyllt

Mae coetir yn cyfrannu at dirwedd amaethyddol ddeniadol a gall gynyddu gwerth eiddo. Gellir defnyddio plannu hefyd i ychwanegu nodwedd at y dirwedd, i fframio golygfa neu i guddio adeiladwaith hyll ac ychwanegu lliw yn ôl y tymor.

Gall coetiroedd sydd wedi'u lleoli'n dda ddarparu cynefin bywyd gwyllt a ffurfio rhwydweithiau sy'n caniatáu i anifeiliaid ehangu eu cynefin presennol.

Mae cysylltu coetir presennol â choetir newydd ei blannu yn annog bywyd gwyllt i symud drwy'r dirwedd i chwilio am fwyd ac i fridio. Mae coetiroedd newydd yn denu pryfed, adar, ystlumod a mamolion. Hefyd, bydd planhigion coetir megis clychau'r gog a garleg y geifr yn ymledu i'r coetir newydd o'r coetir presennol gerllaw.

Mae coetiroedd yn amsugno carbon ac yn helpu i reoli llygredd, ac maent felly'n gwneud cyfraniad pwysig wrth i ni godi i'r her o reoli tir yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

"Mae coetiroedd yn cyfrannu at dirwedd amaethyddol ddeniadol"

"Woodland contributes to an attractive farmed landscape"

## Enhancing the Landscape and wildlife

Woodland contributes to an attractive farmed landscape and can enhance the value of a property. Planting can be used to add a feature to the landscape, frame a view or screen an unsightly structure and to increase seasonal colour.

Well placed woodlands can provide wildlife habitat and form networks that allow plants and animals to expand their existing habitat.

Linking existing woodland with new woodland planting encourages wildlife to move through the landscape to find food and breed. Newly created woodland attracts insects, birds, bats and mammals. Woodland plants such as bluebell and wild garlic will also begin to populate new woodland from nearby existing woodland.

Woodland, by absorbing carbon and assisting in pollution control, has an important contribution to make in addressing the challenges of land management in the face of climate change.

## Rheoli gêm

Gall cynyddu'r coetir ar y fferm wella'r potensial ar gyfer saethu gyredig neu saethu dros y garw yn sylweddol. Mae ffesantod yn byw ar gwr y goedwig, ac yn hoffi bwydo mewn mannau cysgodol, yn enwedig mewn rhodfeydd coedwig. Mae coetiroedd yn rhoi cysgod ac yn lleihau achosion o farwolaeth oherwydd y tywydd neu ysglyfaethwyr. Mae ymylon coetiroedd a rhodfeydd coedwig yn lleoedd delfrydol i osod hopranau bwydo ffesantod.

## Cymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Os ydych yn credu y byddai plannu coed o fudd i'ch fferm am rai o'r rhesymau a nodir uchod, mae'n bosibl y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru eich helpu i wneud hyn drwy ddarparu grant o hyd at £9,000 yr hectar dros gyfnod o 15 mlynedd, ynghyd â grantiau o £3.15 y metr ar gyfer unrhyw waith ffensio newydd angenrheidiol.

Gellir cael gwybodaeth bellach, gan gynnwys gwybodaeth am y grantiau sydd ar gael yn:

[www.forestry.gov.uk/glastirwoodland](http://www.forestry.gov.uk/glastirwoodland)

I gael cymorth neu gyngor, a fyddech cystal â chysylltu â thîm coetir Glastir Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Ffôn: 0300 068 0300

E-bost: [bww.ts@forestry.gsi.gov.uk](mailto:bww.ts@forestry.gsi.gov.uk)

"Mae coetiroedd yn gwella'r potensial ar gyfer saethu"



"Woodland improves the sporting potential"

## Game management

Increasing the area of woodland on the farm can significantly improve the sporting potential for both driven and rough shooting. Pheasants are birds of the woodland edge and prefer sheltered areas, particularly woodland rides, to feed. Woodland provides shelter and cover reducing mortality caused by weather and predators. Woodland edge and rides are ideal locations for siting pheasant feeding hoppers.

## Support from the Welsh Assembly Government

If you feel that planting trees would benefit your farm for some or more of the reasons above, the Welsh Assembly Government may be able to help you do this by providing grants of up to £9,000 per hectare over a 15 year period, plus grants of £3.15 per metre for any necessary new fencing.

Further information, including available grants, can be found at: [www.forestry.gov.uk/glastirwoodland](http://www.forestry.gov.uk/glastirwoodland)

For help or advice please contact the Forestry Commission Glastir woodland team.

Tel: 0300 068 0300

Email: [bww.ts@forestry.gsi.gov.uk](mailto:bww.ts@forestry.gsi.gov.uk)



Gellir cael gwybodaeth bellach,  
gan gynnwys gwybodaeth am y  
grantiau sydd ar gael yn:

[www.forestry.gov.uk/glastirwoodland](http://www.forestry.gov.uk/glastirwoodland)

Further information,  
including available grants,  
can be found at:

[www.forestry.gov.uk/glastirwoodland](http://www.forestry.gov.uk/glastirwoodland)

I gael cymorth neu gyngor, a fyddech  
cystal â chysylltu â thîm coetir Glastir  
Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

**Ffôn::** 0300 068 0300

For help or advice please contact  
the Forestry Commission Glastir  
woodland team

**Tel:** 0300 068 0300

Mae coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth wedi cael eu  
hardystio yn unol â rheolau Cyngor Stewardiaeth  
Coedwigoedd SGS-FM/COC-000358  
© 1996 Cyngor Stewardiaeth Coedwigoedd AC



Forestry Commission woodlands have been certified in  
accordance with the rules of the Forest Stewardship Council  
SGS-FM/COC-000358  
© 1996 Forest Stewardship Council AC

Argraffwyd y ddogfen hon ar Revive 50:50 Offset, papur  
wed'i ailgylchu a gynhyrchir drwy ddefnyddio 50% o wastraff  
adferedig a 50% ffibr pren gwryf. FSC SGS-COC-0912



Printed on revive 50:50 Offset a recycled paper  
containing 50% recovered waste and 50% virgin fibre.  
FSC SGS-COC-0912